

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Radioleg, Ysbyty Athrofaol  
Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 15 a 16 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyaflu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |                                                                          |    |
|----|--------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad.....                                              | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                             | 10 |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....                                           | 10 |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                               | 13 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                              | 25 |
| 4. | Y camau nesaf.....                                                       | 29 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 30 |
|    | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....                              | 31 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella.....                                          | 32 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Radioleg, Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC) a Chanolfan y Fron yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 15 a 16 Gorffennaf 2025. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adrannau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri arolygydd gofal iechyd AGIC a dau Uwch-swyddog Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd y tîm gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 27 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd naw gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafodd AGIC 27 o ymatebion i'r holiadur i gleifion, ac roedd pawb a ymatebodd o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd yr adborth yn eithriadol o gadarnhaol, gan dynnu sylw at wasanaeth effeithlon a staff cwrtais. Roedd y sylwadau yn cynnwys sylwadau yn canmol proffesiynoldeb y staff a'u heglurder wrth gyfathrebu, gyda'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael lefel dda o wybodaeth a bod y staff yn rhoi tawelwch meddwl iddynt drwy gydol eu gofal.

Nododd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod mesurau priodol ar waith i gynnal preifatrwydd. Gwelsom aelodau o'r staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael digon o wybodaeth am fanteision a risgiau eu triniaethau.

Roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, gyda'r staff yn cyfleu amseroedd apwyntiadau ac achosion o oedi yn glir. Roedd staff y dderbynfa yn rhagweithiol wrth roi gwybodaeth i gleifion a oedd yn aros.

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol drwy arwyddion a deunyddiau dwyieithog. Roedd yn bosibl adnabod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg drwy'r logo 'Iaith Gwaith'. Er bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, nododd y staff nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml. Roedd rhai aelodau o staff amlieithog yn cefnogi cleifion yn eu mamiaith lle y bo'n bosibl. Anogir y cyflogwr i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyfieithu a sut i gael gafael arnynt.

Roedd yr amgylchedd yn hygyrch ac yn gynhwysol. Roedd mynediad ffisegol da ac roedd cyfarpar ar gael i helpu cleifion ag anghenion symudedd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwellu ymwybyddiaeth y staff o wasanaethau cyfieithu a sut i'w gael gafael arnynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau ar waith i gynnal eu preifatrwydd.

- Amgylchedd glân, taclus a chroesawgar heb unrhyw annibendod.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adran yn cydymffurfio ag IR(ME)R 2017 drwy brotocolau a gweithdrefnau sefydledig, ac roedd adolygiadau parhaus yn cael eu cynnal a diweddariadau yn cael eu hargymell ar gyfer rhai meysydd penodol, fel y defnydd o'r fraich-C fach mewn theatrau a dogfennau gweithdrefnau'r cyflogwr. Roedd Lefelau Cyfeirio Diagnostig (DRL) yn cael eu monitro, ac roedd prosesau ar waith ar gyfer uwchgyfeirio ac archwilio, er bod angen eu ffurfioli ymhellach. Roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol (MPE) yn rhoi arweiniad a chymorth ar ddiogelu rhag ymbelydredd a sicrhau ansawdd cyfarpar.

Roedd gweithdrefnau adnabod cleifion yn gadarn, er bod angen ystyried rhai anghysondebau. Roedd ymholiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau ar gyfer unigolion o oedran beichiogi. Roedd angen gwella'r wybodaeth am fanteision a risgiau mamograffeg er mwyn sicrhau bod pob claf yn cael gwybodaeth briodol. Roedd gwerthusiadau clinigol yn cael eu cynnal gyda chymorth gan staff Everlight ac adnoddau deallusrwydd artifisial (AI), ac roedd dogfennaeth yn cael ei diweddarau'n briodol.

Roedd arferion rheoli risg, rheoli heintiau a diogelu yn effeithiol, ac roedd cyfleusterau da o ran mynediad i bobl anabl. Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli cofnodion cleifion yn briodol, er y dylid symleiddio'r prosesau atgyfeirio er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau risg. Yn gyffredinol, nododd yr arolygiad arferion nodedig a meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod gofal diogel, effeithiol a theg yn cael ei roi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r wybodaeth am fanteision a risgiau mamograffeg sy'n cael ei rhoi i gleifion
- Symleiddio'r prosesau atgyfeirio er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau risg, gan hwyluso llwybrau mwy diogel ac effeithiol i gleifion
- Ffurfioli'r prosesau ar gyfer uwchgyfeirio ac archwilio lefelau cyfeirio diagnostig (DRL) er mwyn atgyfnerthu prosesau monitro a chydymffurfio
- Adolygu a diweddarau dogfennaeth y gweithdrefnau ar gyfer defnyddio'r fraich-C fach a gweithdrefnau'r cyflogwr er mwyn sicrhau bod protocolau yn

gyfredol ac yn gadarn ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd, yn enwedig ar gyfer defnydd pediatrig

- Ymdrin ag anghysondebau yn y gweithdrefnau adnabod cleifion er mwyn cynnal safonau uchel o ran diogelwch a chywirdeb
- Diweddaru'r ddogfennaeth sy'n cefnogi gwerthusiadau clinigol ar y cyd â staff Everlight ac adnoddau deallusrwydd artiffisial er mwyn gwella eglurder ac effeithiolrwydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau rheoli risg effeithiol ar waith
- Systemau a phrosesau rheoli heintiau
- Arferion diogelu cynhwysfawr

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Tynnodd yr arolygiad sylw at y ffaith bod systemau llywodraethu a rheoli clir ar waith. Roedd pob aelod o'r staff radioleg o'r farn bod gan yr adran gyflenwad o staff a chymysgedd sgiliau addas. Fodd bynnag, nid oedd y cymorth a oedd ar gael i staff radioleg yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn ymddangos mor gadarn â'r cymorth a oedd ar gael i staff Ysbyty Athrofaol Cymru, yn enwedig yng Nghanolfan y Fron. Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd adolygu a chydbwyso lefelau staffio a chymorth

Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gadarn, ac roedd 90% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol er bod rhai yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar hyfforddiant diogelu lefel uwch. Roedd dogfennaeth hyfforddiant IR(ME)R yn cael ei chadw'n effeithiol ar y cyfan, er bod angen ei gwella rywfaint i weithredwyr dyfeisiau braich-C fach.

O ran arweinyddiaeth, roedd y Prif Weithredwr yn dirprwyo cyfrifoldebau o ran cydymffurfio ag IR(ME)R ac roedd y rheolwyr yn hawdd cael gafael arnynt ar y cyfan, er bod rhai aelodau o'r staff wedi gofyn am fwy o ymgysylltu lleol a mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn enwedig yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Roedd y gweithdrefnau cwyno yn hysbys, ac roedd adborth yn cael ei rannu drwy negeseuon e-bost gan fwyaf, gyda'r gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu ag adrannau gwahanol. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd, ac yn ei harfer, er nad oedd pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol. Yn gyffredinol, canfu'r arolygiad feysydd o ymarfer cryf a nododd gyfleoedd i wella o ran cymorth, hyfforddiant ac ymgysylltu ar draws safleoedd yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r cymorth wyneb yn wyneb gan reolwyr a threfniadau'r rheolwyr ar gyfer cyfathrebu â staff
- Adolygu lefelau staffio er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff a chymysgedd sgiliau priodol ar gael ym mhob ardal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant
- Ymwybyddiaeth o IR(ME)R.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron ar-lein a phapur er mwyn casglu safbwyntiau cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn. Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob maes, gyda phawb yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Gwasanaeth cyflym iawn, staff hyfryd. Diolch.”*

*“Gwasanaeth gwych drwyddo draw”*

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd

Roedd deunydd hybu iechyd i'w weld yn ardaloedd aros pob adran a oedd yn rhan o'r arolygiad. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision mabwysiadu ffordd iach o fyw a rhoi'r gorau i smygu.

Roedd posterï dwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi'u harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y broses o gael archwiliad pelydr-X ac yn eu cynghori i roi gwybod i'r staff os gallent fod yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron. Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion am risgiau a manteision cysylltiedig y cysylltiad bwriadol ar amrywiaeth o bosterï yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd a welwyd.

##### Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd cleifion. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd yr holiadur y canlynol:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed
- Bod y staff wedi gwrandao arnynt.

Gwelwyd staff y dderbynfa a'r staff clinigol yn siarad â chleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd cleifion, a gwnaethom nodi bod y staff yn ymdrechu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio iddynt beth roeddent yn ei wneud.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y cysylltiad. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu gofal a'r staff.

Gwnaeth un sylw ar y gofal a gafodd:

*“Mae'r staff yma wedi bod yn wych. Rwyf wedi cael nifer o wahanol ymchwiliadau, ac maent wedi cymryd amser i esbonio'r broses ac i roi tawelwch meddwl i fi.”*

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Yn ystod yr archwiliad, cafodd cleifion eu gweld mewn modd amserol. Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu ynghylch apwyntiadau, amseroedd ac unrhyw achosion o oedi i apwyntiadau. Cadarnhaodd y staff y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion os byddai oedi o ran amser eu hapwyntiad. Dywedodd staff y dderbynfa yn y gwahanol ardaloedd wrthym hefyd y byddent yn dweud wrth gleifion yn yr ystafell aros pe bai unrhyw oedi.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr adran. Gwelsom fod posteri gwybodaeth dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu harddangos yn glir. Gwelsom fod arwyddion dwyieithog clir wedi'u gosod i gyfeirio ymwelwyr i'r adran. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn siarad Cymraeg, ac roedd modd eu hadnabod gan eu bod yn gwisgo logo 'Iaith Gwaith'.

Gwelsom bosteri adborth er mwyn i gleifion rannu adborth. Yn ogystal â bwrdd “Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni” yn y brif ardal Radioleg, yn dangos sut roedd yr adran wedi gwrando ac wedi gwneud gwelliannau yn seiliedig ar adborth gan

gleifion. Roedd proses Gweithio i Wella GIG Cymru i'w gweld yn yr adran yn ogystal â phosteri yn hyrwyddo Llais, sef y sefydliad sy'n cynrychioli cleifion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y byddent yn ceisio datrys unrhyw bryderon neu gwynion pan fyddai'r mater yn cael ei godi. Wedyn byddent yn cael eu huwchgyfeirio at y rheolwyr fel y bo'n briodol.

Cadarnhaodd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod gwasanaeth cyfieithu ar gael i helpu'r cleifion hynny nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Ni ddywedodd unrhyw aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi gorfod defnyddio'r gwasanaeth hwn. Roedd staff yr adran radioleg yn siarad llawer o wahanol ieithoedd, a dywedodd rhai ohonynt eu bod yn cefnogi cleifion yn eu mamiaith, os oeddent yn gallu gwneud hynny neu pe byddai cydweithiwr yn gofyn iddynt wneud hynny.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfieithu a sut i gael gafael arnynt ymhlith y staff. Gellid hefyd ddatblygu rhestr o ieithoedd y staff sy'n barod i rannu'r wybodaeth honno er mwyn helpu yn hyn o beth.**

#### **Hawliau a chydraddoldeb**

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaethau yn hygyrch i gleifion, gan gynnwys mynediad gwastad da i gadeiriau olwyn a choridorau ac ardaloedd trin mawr. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y sefydliad yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd hyn yn cynnwys trin pawb yn gyfartal a pholisïau a phrosesau cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn cynnwys hyfforddiant staff. Roedd modd gostwng y gwelyau archwilio ar gyfer cleifion, ac roedd teclynau codi hefyd ar gael.

Yn yr holiadur i gleifion, dywedodd tri chlaf eu bod yn teimlo na allent gael gafael ar y gofal iechyd priodol ar yr adeg briodol p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio. Hefyd, dywedodd tri chlaf eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael mynediad cyfartal a theg i'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, heb ofni y bydd yn destun gwahaniaethu.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (fel y'u diwygiwyd)<sup>1</sup>

**Dyletswyddau'r Cyflogwr:** sefydlu gweithdrefnau, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd cyffredinol

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau cyflogwr ysgrifenedig ar waith fel sy'n ofynnol o dan IR(ME)R. Darparwyd dogfennaeth cyn yr arolygiad fel rhan o'r Ffurflen Hunanasesu a gwblhawyd.

Gwnaethom edrych ar yr holl ddogfennau mewn perthynas ag IR(ME)R a gyflwynwyd cyn yr arolygiad a siarad â deiliaid dyletswydd ac uwch-reolwyr i gadarnhau eu bod yn deall y prosesau a'r arferion. Roedd gweithdrefnau unigol ar waith gan y cyflogwr ar gyfer defnyddio breichiau-C bach mewn theatrau. Roedd angen adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer defnyddio breichiau-C mewn theatrau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer clinigol yn gywir.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau ei weithdrefnau ar gyfer defnyddio breichiau-C bach mewn theatrau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer yn gywir.**

Roedd prif weithdrefnau'r cyflogwr yn rhoi cyfarwyddiadau clir a manwl ynghylch sut a phryd y dylid rhoi proses ar waith a phwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau hyn. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gweithdrefnau'r cyflogwr yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn perthynas â diwygiadau diweddar i IR(ME)R.

Argymhellwyd rhai gwelliannau a diwygiadau penodol pellach fel rhan o'r arolygiad, cafodd y rhain eu rhannu ag arweinwyr yr adrannau yn ystod y cyfarfod gwerthuso'r ffurflen hunanasesu a'r arolygiad, ac mae rhai wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Mewn perthynas â chadarnhau gweithdrefnau'r cyflogwr, nid oedd yn glir o'r weithdrefn a gyflwynwyd, sef Gweithdrefn D, pa broses a oedd ar waith ar gyfer cymeradwyo a chadarnhau gweithdrefnau'r cyflogwr.

---

<sup>1</sup> Fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2018 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2024

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau Gweithdrefn D i gynnwys proses gadarnhau ffurfiol ar gyfer pob gweithdrefn, gan wneud yn siŵr y caiff ei dogfennu'n briodol a'i chyfleu i bob rhanddeiliad er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a sicrwydd cyn ei rhoi ar waith.

#### *Canllawiau atgyfeirio*

Roedd y ffurflen hunanasesu a gyflwynwyd gan yr adran cyn yr arolygiad yn nodi bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau diweddaraf Coleg Brenhinol y Radiolegwyr ar atgyfeirio ar gyfer delweddu, 'iRefer', y gellid eu gweld ar unrhyw un o safleoedd GIG Cymru.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod Gweithdrefn P yn adlewyrchu'r diwygiadau i IR(ME)R.

#### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith ar ddefnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig a oedd yn disgrifio'r broses ar gyfer pennu, defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig.

Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig yn y gwasanaeth yn cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Diogelu rhag Ymbelydredd (RPS) yng Nghaerdydd ac yn cael eu hadolygu wedyn gan y gwasanaeth hwnnw neu arweinwyr clinigol yr ardal, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y meysydd clinigol perthnasol. Mae'n werth nodi bod CAVOC yn pennu lefelau cyfeirio diagnostig ar wahân i'r brif adran oherwydd natur arbenigol ei gwaith.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff pan fyddai materion yn cael eu nodi, y byddai pryderon yn cael eu huwchgyfeirio i RPS Caerdydd, ac mae'r arweinydd proffesiynol ar gyfer y maes hwnnw fyddai'n atebol yn y pen draw. Nodwyd nad oedd y broses uwchgyfeirio wedi'i ffurfioli na'i dogfennu ar hyn o bryd, er bod arweinwyr clinigol yn cynnal trafodaethau mewn amrywiaeth o fforymau. Er nad oeddent yn cael eu cofnodi'n swyddogol mewn dogfennau gweithdrefnol, roedd materion perthnasol yn cael eu cofnodi yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd (RPG). Roedd cytundeb i ddogfennu'r broses gadarnhau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Roedd systemau i fonitro a rheoli unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig ar waith. Roedd achosion o fynd y tu hwnt i lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr adrannol, ac yn cael eu huwchgyfeirio at yr uwch-arolygydd cyfrifol fel y bo angen. Roedd archwiliadau ôl-weithredol yn cael eu cynnal i asesu achosion o fynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn ystod y chwe mis blaenorol, ac roedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o hynny yn cael eu dogfennu. Roedd uwch-arolygwyr yn adolygu'r

cofnodlyfrau bob mis ac yn cychwyn ymchwiliadau fel y bo angen. Nid oedd y broses monitro ac uwchgyfeirio hon wedi'i disgrifio mewn ffordd gynhwysfawr yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer y breichiau-C bach, ond lefelau cyfeirio diagnostig rhyngwladol oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y dyfeisiau hyn ar hyn o bryd.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod Gweithdrefn F, y broses gadarnhau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig, yn cael ei dogfennu ynghyd â'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd i ymdrin ag achosion cyson o fynd y tu hwnt i lefelau cyfeirio diagnostig.**

#### *Ymchwil feddygol*

Gwnaethom edrych ar weithdrefn berthnasol y cyflogwr, sef Gweithdrefn G, ar gyfer cysylltiadau a gynhaliwyd fel rhan o raglenni ymchwil meddygol, a oedd yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu a'r prosesau angenrheidiol i reoli cysylltiadau ymchwil. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac wedi'i hysgrifennu'n dda.

#### *Hawliau*

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chwmpas eu hawliau o dan IR(ME)R a gwnaethant ddisgrifio eu ffurflen hawliau a oedd yn amlinellu eu maes ymarfer.

Roedd y broses ar gyfer hawliau deiliaid dyletswydd yn cael ei dirprwyo gan y cyflogwr i uwch-ddeiliaid swyddi priodol ag arbenigedd perthnasol yn y maes clinigol. Y gadwyn hawliau oedd Cyflogwr/Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Gwyddonwyr Iechyd a Datblygu Gwasanaethau Cymunedol, Cyfarwyddwyr y Bwrdd Clinigol, Cyfarwyddwyr Clinigol Cyfarwyddiaethau ac aelodau o staff meddygol. Nid oedd y Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol yn rhoi hawliau i aelodau o staff anfeddygol yn yr adran Radioleg.

Dangosodd yr uwch-staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â hawliau o dan IR(ME)R. Darparodd y staff dystiolaeth o lythyrau hawliau cyfredol, a oedd yn diffinio eu maes ymarfer penodol yn y gwasanaeth.

Cadarnhaodd adolygiad o'r ddogfennaeth hawliau fod cofnodion cadarn yn cael eu cadw a'u harchwilio'n rheolaidd. Gwelwyd bod y cofnodion hawliau yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu dyletswyddau'r staff yn gywir. Gwelsom dystiolaeth hefyd o'r broses ar gyfer rhoi llythyrau hawliau i ddeiliaid dyletswydd ac ar gyfer adolygu'r llythyrau hynny yn ystod yr arolygiad.

Fodd bynnag, nodwyd bod angen adolygu ac atgyfnerthu Gweithdrefn B y cyflogwr (Hawliau) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Yn arbennig, y broses ar gyfer diweddarau hawliau staff Everlight gan y cyflogwr.

**Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau ac atgyfnerthu Gweithdrefn B er mwyn sicrhau bod y broses hawliau ar gyfer deiliaid dyletswydd Everlight yn unol â phrosesau'r bwrdd iechyd.**

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff nad oedd llythyrau hawliau newydd yn cael eu rhoi oni fu newid sylweddol o ran cwmplas yr hawliau. Gwnaethom ofyn i uwch-aelodau o'r staff adolygu'r broses hon er mwyn sicrhau bod llythyrau hawliau yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu'r canllawiau a'r ymarfer diweddaraf. Adolygwyd y broses, y systemau a'r ddogfennaeth ar gyfer hawliau atgyfeirwyr anfeddygol, a gwelwyd ei bod yn briodol.

#### *Adnabod cleifion*

Gwnaethom edrych ar weithdrefn y cyflogwr ar gyfer adnabod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio a chadarnhau mai'r unigolyn cywir ydoedd. Roedd proses ar waith ar gyfer staff theatrau yn ogystal â staff yr adran radioleg. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir ar gyfer adnabod unigolion, yn ogystal â'r weithdrefn ar gyfer adnabod unigolion na fyddant o bosibl yn gallu rhoi gwybod eu hunain pwy ydynt yn gywir. Roedd hyn yn gyson â'r prosesau a oedd wedi'u disgrifio yn y weithdrefn. Nodwyd rhai gwahaniaethau o ran yr hyn a oedd yn cael ei ystyried yn anghysondeb bach neu fawr.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ar gyfer adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio yn gywir er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y broses i'w dilyn os bydd anghysondeb ym manylion adnabod y claf.**

#### *Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)*

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a oedd yr unigolyn yn feichiog neu a allai fod yn feichiog, neu a oedd yn bwydo ar y fron. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y weithdrefn ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a oeddent yn feichiog. Roedd y prosesau a ddisgrifiwyd yn gyson â gweithdrefn y cyflogwr.

#### *Manteision a risgiau*

Dim ond gwybodaeth gyfyngedig roedd Canolfan y Fron yn ei rhoi am fanteision a risgiau'r cysylltiad sy'n gysylltiedig â mamograffeg. Roedd apwyntiadau yn cael eu

trefnu dros y ffôn â derbynnydd. Cadarnhaodd sgysiau a gafwyd â'r staff yn ystod yr arolygiad mai dogfennaeth a gwybodaeth gyfyngedig a oedd ar gael i'r cleifion hyn am fanteision a risgiau. Yn ystod yr arolygiad, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y byddai Canolfan y Fron yn sicrhau bod gwybodaeth am fanteision a risgiau yn cael ei rhannu â phob claf yn y dderbynfa pan fyddai'n cyrraedd ar gyfer ei apwyntiad.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob claf, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael gwybod am apwyntiadau ar ffurf neges destun neu dros y ffôn, yn cael gwybodaeth berthnasol am fanteision a risgiau fel sy'n ofynnol gan IR(ME)R 2017.**

#### *Gwerthusiadau clinigol*

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiadau o gysylltiadau meddygol a gynhaliwyd yn yr adran. Roedd y ffurflen hunanasesu a disgrifio sut roedd gwerthusiadau clinigol yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar gyfer pob math o gysylltiad.

Cadarnhaodd y ffurflen hunanasesu fod Everlight yn cael ei gyflogi fel trydydd parti i ddarparu cyfiawnhad a gwerthusiadau clinigol o wasanaethau delweddu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd y cymorth a ddarparwyd ganddo yn cynnwys gofynion delweddu cyffredin a brys fel y bo'r angen, cymorth i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau o fewn terfynau amser penodedig, ac roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ymdrin ag absenoldebau staff oherwydd salwch.

Cadarnhaodd y ffurflen hunanasesu y gallai aelodau o staff anfeddygol fod yn destun gwerthusiadau clinigol a bod hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnal ac asesiadau cymhwysedd yn cael eu cwblhau cyn pennu hawliau ar gyfer y dasg hon. Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gwerthusiadau clinigol, Gweithdrefn J, wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau'n ddiweddar. Nodwyd yn y ffurflen hunanasesu fod meddalwedd deallusrwydd artiffisial yn cael ei defnyddio ar gyfer asesiadau strôc, yn benodol ar gyfer cleifion ar y llwybr strôc; roedd sganiau CT yn cael eu prosesu gan y system deallusrwydd artiffisial, a oedd yn creu adroddiadau i'r clinigydd strôc a'r Radiolegydd eu hadolygu.

Mae'r radiolegwyr yn defnyddio'r gwerthusiadau strôc a gynhelir drwy gyfrwng deallusrwydd artiffisial fel ychwanegiad, ac yn creu eu hadroddiadau eu hunain o hyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod yr asesiad brysbennu, a oedd yn cael ei greu gan y feddalwedd deallusrwydd artiffisial, yn gweithredu fel dangosydd cychwynnol er mwyn tynnu sylw at gleifion y gallai fod angen eu hatgyfeirio am driniaeth bellach. Fodd bynnag, mae'r atgyfeiriadau yn destun gwerthusiad pellach gan radiolegydd cyn y caiff unrhyw gamau eu cymryd.

Mae angen i'r cyflogwr ddiweddarau Gweithdrefn J i gynnwys gweithdrefnau ar gyfer defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth IR(ME)R. Mae'n hanfodol bod y safle yn cyfathrebu'n glir wrth ystyried rôl gynorthwyol y feddalwedd deallusrwydd artiffisial.

Gwnaethom adolygu rhai o'r sylwadau gwerthuso yn yr adroddiadau safonedig a nodwyd nad oeddent yn gyson.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r adroddiadau safonedig ('safonol') er mwyn sicrhau cysondeb a chofnodi gwerthusiadau clinigol yn nodiadau'r cleifion lle y bo'n berthnasol.**

#### *Cysylltiadau delweddu anfeddygol*

Adolygwyd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer delweddu anfeddygol ac roedd wedi'i hysgrifennu'n briodol. Cadarnhaodd y ffurflen hunanasesu mai'r unig archwiliadau delweddu anfeddygol a oedd yn cael eu cynnal oedd y rhai hynny a oedd yn ofynnol at ddibenion cyfreithiol.

#### **Dyletswyddau'r cyflogwr: archwiliadau clinigol**

Roedd y ffurflen hunanasesu yn disgrifio'r rhaglen archwiliadau clinigol a'r broses o gofrestru a chytuno ar yr archwiliadau. Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn nodi'r broses ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol ac ar gyfer unrhyw gamau gweithredu priodol i'w cymryd ar ôl adolygu'r canfyddiadau a'r canlyniadau.

Gwnaethom edrych ar rai enghreifftiau cynhwysfawr o archwiliadau clinigol ac archwiliadau IR(ME)R o bob maes. Gwelwyd targedau o 100% ar gyfer archwiliadau IR(ME)R. Roedd yr archwiliadau wedi'u cyflwyno'n dda ac yn cynnwys canfyddiadau, casgliadau, llwyddiannau allweddol, pryderon allweddol a chynlluniau gweithredu. Roedd yr amserlen archwiliadau yn gynhwysfawr iawn ac yn cynnwys pob maes. Roedd hyn yn feysydd arfer canmoladwy yn ein barn ni.

#### **Dyletswyddau'r cyflogwr: cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol**

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn dangos bod digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd yn cael eu monitro'n systematig, eu cyfathrebu, eu cofnodi a'u hystyried drwy roi camau gweithredu priodol ar waith i dargedu'r achosion sylfaenol.

Cafodd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer cysylltiadau damweiniol ac anfwriadol arwyddocaol o safbwynt clinigol (CSAUE) ei gwerthuso. Gwnaethom hysbysu'r

uwch-arweinwyr y dylid diweddarau'r weithdrefn hon i egluro pwy sy'n gwneud y penderfyniad clinigol, gan nad oedd yn nodi pwy sy'n gwneud y penderfyniad o ran a oedd cysylltiad damweiniol neu anfwriadol yn arwyddocaol o safbwynt clinigol ac ai'r atgyfeiriwr oedd y person cywir i gyfleu hyn. Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau Gweithdrefn L er mwyn nodi'r person cywir i wneud penderfyniad.

Archwiliwyd y camau gweithredu a oedd wedi deillio o gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol arwyddocaol; roedd yn galonogol nodi bod safonau codio cenedlaethol wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd rhai cynlluniau gweithredu agored wedi cael eu hadolygu neu wedi cael eu cau'n gyson. Nododd yr arweinwyr eu bod yn ystyried cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn sicrhau dogfennaeth ddigonol a sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cwblhau.

Roedd yn galonogol nodi bod posterï dadansoddi tueddiadau i'w gweld yn yr adran a oedd yn cyflwyno themâu a oedd wedi dod i'r amlwg a'r camau gweithredu cyfatebol i ymdrin â'r achosion sylfaenol yn glir. Roedd hyn yn arfer canmoladwy. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn ymwybodol o'r posterï hyn.

**Rhaid i'r cyflogwr rannu canfyddiadau gwaith dadansoddi tueddiadau â'r staff ac atgyfeirwyr, drwy ddsbarthu'r poster a'r wybodaeth arno yn ehangach.**

#### **Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**

Roedd hawliau atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr i gyflawni eu dyletswyddau wedi'u cynnwys yn un o weithdrefnau'r cyflogwr a chawsant eu disgrifio yn y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd. Roedd y ffurflen hunanasesu hefyd yn disgrifio'r rhaglenni hyfforddiant a oedd ar waith ar gyfer pob deiliad dyletswydd o dan IR(ME)R a'r broses o reoli cofnodion hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr.

Gwelsom fatrics hawliau deiliaid dyletswydd a oedd yn glir ac yn drefnus ac yn cynnwys tabiau unigol ar gyfer gwahanol grwpiau o staff a dolenni i wybodaeth ychwanegol.

#### **Cyfiawnhad dros gysylltiadau unigol**

Roedd y ffurflen hunanasesu yn disgrifio'r prosesau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau a lle roedd hyn yn cael ei gofnodi. Gwnaethom edrych ar Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Cyfiawnhau ac Awdurdodi hefyd. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi disgrifio'r hyn roeddent yn ei ystyried wrth gyfiawnhau cysylltiadau, roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch o ran ble i ddogfennu'r broses awdurdodi ar y system gwybodaeth radioleg (RIS).

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Cyfiawnhau ac Awdurdodi yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r camau sydd angen eu cymryd wrth gyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol yn gywir.**

### **Optimeiddio**

Roedd yr ymarferwyr a'r gweithredwyr yn sicrhau bod dosau yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (ALARP) drwy sawl mesur. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio'r ystafell fwyaf newydd â'r cyfarpar diweddaraf lle bynnag y bo'n bosibl, gan ei bod yn darparu delweddau o ansawdd uwch. Roedd archwiliadau rheoli ansawdd cyffredin yn cael eu cynnal ar y cyfarpar er mwyn sicrhau bod dosau yn parhau o fewn ystodau derbyniol. Yn ogystal, roedd rhaglenni ar gyfer archwilio'r lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer cyfarpar yn cael eu cynnal bob tair blynedd ar gyfer amrywiaeth o archwiliadau. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i lefelau cyfeirio diagnostig lleol o gymharu ag archwiliadau blaenorol, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gynnydd annisgwyl o ran dosau archwiliadau.

Roedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob chwarter i'r Tîm Optimeiddio Delweddau Radioleg, lle roedd prosiectau parhaus ar gyfer pob modd yn cael eu cynnig a'u monitro a lle roedd canlyniadau yn cael eu cyflwyno ar ôl eu cwblhau. Roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn. Roedd prosiectau archwilio hefyd yn cael eu cynnal yn erbyn y canllawiau a'r protocolau delweddu, yn ogystal ag archwiliadau ansawdd delweddau gweithredwyr. Roedd unrhyw newidiadau i brotocolau yn deillio o ymdrechion optimeiddio yn cael eu rhannu drwy dimau moddau.

### **Gofalwyr neu gysurwyr**

Roedd y ffurflen hunanasesu a gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer cysurwyr neu ofalwyr, sef Gweithdrefn N, yn nodi'r gweithdrefnau a chanllawiau ar gysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr a chysurwyr, ac roeddent yn cynnwys cyfyngiadau dosau sefydledig.

Mae Gweithdrefn N yn nodi '*For X-ray and nuclear medicine procedures, a dose constraint of 1 mSv will be applied.*' Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r cychwyn cyntaf wrth ddarllen y weithdrefn a oedd y cyfyngiad hwn yn cyfeirio at gyfyngiad blynyddol neu gyfyngiad fesul cysylltiad. Esboniodd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol y byddai'n anelu at adolygu'r cyfyngiad dosau ac o bosibl yn newid i gyfyngiad dosau fesul digwyddiad, er mwyn gallu cofnodi a chyfrifo'r dos yn haws.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau Gweithdrefn N er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfyngiadau dosau i ofalwyr a chysurwyr, unwaith y caiff y cyfyngiad dosau hwn ei gadarnhau.**

### **Cyngor arbenigol**

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael cyngor arbenigol pan fo angen. Roedd yn gadarnhaol nodi cyfranogiad yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, a oedd yn amlwg yn ymgysylltu â'r adran er nad oeddent ar y safle bob dydd. Gwelwyd tystiolaeth o hyn drwy ei ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, yn ogystal â'i gyngor i'r staff yn ôl y gofyn. Roedd yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhan annatod o brofion rheoli ansawdd, archwiliadau dosau, caffael a chomisiynu cyfarpar.

Roedd yn werth nodi'r hyfforddiant IR(ME)R a oedd yn cael eu cynnig gan yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb a diweddariadau cyffredinol i reolwyr a'r rhai hynny sy'n gweithio mewn maes clinigol.

Wrth edrych ar y ddogfennaeth ar gyfer y breichiau-c bach a oedd yn cael eu defnyddio yn y theatrau, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod rhaglen sicrhau ansawdd, profion rheoli ansawdd nac archwiliadau dosau yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn gan yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol na gan y gweithredwyr sy'n gyfrifol am y cyfarpar.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff Arbenigwyr Ffiseg Feddygol eu cynnwys yn y broses rheoli ansawdd a'r broses o gefnogi cyfarpar a staff mewn theatrau o dan IR(ME)R.**

#### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Gwelsom weithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau bod rhaglenni sicrhau ansawdd mewn perthynas â gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau ysgrifenedig a chyfarpar yn cael eu dilyn. Gwnaethom edrych ar y polisi ar gyfer Sicrhau Ansawdd a Chynnal Profion Cyffredin o Gyfarpar Delweddu Diagnostig ar gyfer pob adran, ac eithrio'r theatrau a'r defnydd o freichiau-C bach, lle roedd angen atgyfnerthu'r prosesau.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi'r rhaglen sicrhau ansawdd sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer pob darn o gyfarpar perthnasol (ac eithrio cyfarpar breichiau-C bach, ar adeg yr arolygiad) gan gynnwys profi unrhyw gyfarpar cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf a phrofi perfformiad cyfarpar yn rheolaidd.

Roedd camau wedi cael eu cychwyn cyn yr arolygiad i wella cydymffurfiaeth IR(ME)R mewn perthynas â defnyddio breichiau-C bach mewn theatrau, ac roedd cynlluniau ar y gweill i wneud gwelliannau ychwanegol yn ystod yr wythnosau dilynol. Nododd arweinwyr yr adran eu bod wedi caffael adnodd newydd ar gyfer rheoli ansawdd cyfarpar, ac roedd yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn aros am

gadarnhad o'r dyddiadau ar gyfer cynnal profion rheoli ansawdd. Yn ôl gwybodaeth a ddaeth i law ar ôl yr arolygiad, roedd yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi rhoi hyfforddiant i'r staff ar brofion rheoli ansawdd ar gyfer pob dyfais braich-C fach er mwyn pennu canlyniadau llinell sylfaen.

Roedd atgyfeiriadau papur yn cael eu defnyddio ar gyfer defnyddio breichiau-C bach; ond nid oeddent yn cael eu cofnodi ar RIS y safle ar adeg yr arolygiad. Roedd gan bob peiriant gofnodlyfr ategol ar gyfer dosau, ac roedd data ar ddosau hefyd yn cael eu hallforio'n uniongyrchol o'r breichiau-C bach. Argymhellir y dylid digideiddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau na chaiff ei cholli ac i hwyluso trefniadau monitro.

Cawsom sicrwydd gan y staff fod amllder Lefel B ar gyfer profi'r breichiau-C bach yn unol ag argymhellion y Sefydliad Ffiseg ac Ymbelydredd mewn Meddygaeth (IPEM).

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob agwedd ar y defnydd o freichiau-C bach mewn theatrau yn cydymffurfio'n llawn ag IR(ME)R a bod yr aelodau hynny o staff sy'n defnyddio, yn profi, ac yn sicrhau ansawdd yr holl gyfarpar IR(ME)R wedi'u hyfforddi, yn gymwys ac yn meddu ar yr hawl i wneud hynny.**

Yn y brif adran radioleg, nododd uwch-aelodau o'r staff fod tri radiograffydd wedi cael hyfforddiant i gynnal profion rheoli ansawdd ar y safle. Roedd peirianwyr yn gallu cael mynediad at gyfarpar o bell os oedd angen.

Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer trosglwyddo i beiriannydd allu cael mynediad o bell nac ar gyfer hysbysu'r staff am newidiadau o ran profion neu ofynion cyn dechrau defnyddio'r cyfarpar eto at ddibenion clinigol.

**Dylai'r cyflogwr ddatblygu a dosbarthu gweithdrefn ysgrifenedig er mwyn trosglwyddo cyfarpar yn ddiogel ar ôl unrhyw waith gan beiriannydd o bell.**

## **Diogel**

### **Rheoli risg**

Roedd pob adran a welsom yn hygyrch ac yn cynnwys mynediad i bobl anabl a chyfleusterau i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd arwyddion da o fynedfa'r ysbyty i'r adran berthnasol. Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da, gan gynnwys y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau. Roedd ardaloedd aros mawr yn ogystal ag is-ardaloedd aros bach. Gwelsom fod llif y cleifion yn cael ei reoli, ac ni welsom unrhyw enghreifftiau o ardaloedd gorlawn. Roedd yr ardal yn ddiogel, heb unrhyw beryglon fel coridorau wedi'u blocio, annibendod neu beryglon baglu. Roedd yr ardaloedd i gleifion a'r coridorau yn cael eu cadw'n glir.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd pob ardal a welwyd yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob rhan o'r adran, a gwelwyd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol perthnasol. Roedd polisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith ac roedd y staff yn gwybod sut i gael gafael arnynt.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi ac yn gallu disgrifio'r trefniadau ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol, cyfarpar ac ardaloedd perthnasol o'r uned. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn yr ystafelloedd archwilio a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol addas ar gael yn hwylus iddynt.

Dywedodd pob un o'r cleifion a fynegodd farn yn yr holiadur bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a dywedodd pawb fod y lleoliad yn lân.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd a ble i gael gafael arnynt ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd mewn perthynas ag unrhyw bryderon diogelu.

Yn ôl ein hadolygiad o gofnodion hyfforddiant pump aelod o'r staff, roedd pedwar yn gyfredol ac wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel dau, ac roedd cynlluniau ar y gweill i hyfforddi staff hyd at lefel tri fel y bo'n ofynnol ar gyfer eu rôl.

## **Effeithiol**

### **Cofnodion cleifion**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r cofnodion a ddefnyddir yn yr adran.

Gwnaethom edrych ar sampl o ddogfennaeth atgyfeirio pum claf, sef cyfuniad o atgyfeiriadau cyfredol ac ôl-weithredol. Roedd y sampl yn dangos bod y cofnodion atgyfeirio wedi cael eu cwblhau'n llawn, gan ddangos bod archwiliadau cleifion priodol wedi cael eu cynnal. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau manylion personol y claf, sicrhau digon o fanylion clinigol, holi am statws beichiogrwydd lle bo hynny'n gymwys, roedd y broses gyfiawnhau wedi cael ei dilyn ac roedd atgyfeiriwr sydd â hawliau wedi llofnodi'r atgyfeiriad yn briodol.

Roedd tystiolaeth o werthusiad clinigol ar gyfer pob math o gysylltiad wedi'i chynnwys yn adran cyfnod gofal tri chofnod. Nid oedd adroddiad wedi'i gyflwyno ar gyfer dau ohonynt ar ôl cyfnod aros o bythefnos.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion IR(ME)R a welsom yn briodol. Fodd bynnag, roedd y broses atgyfeirio yn cyfeirio at sawl ffordd o atgyfeirio cleifion i mewn i'r gwasanaethau, gan gynnwys systemau papur ac electronig a allai gynyddu'r risg y caiff atgyfeiriadau eu dyblygu.

**Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r prosesau atgyfeirio er mwyn sicrhau y cânt eu symleiddio i wella effeithlonrwydd ac i leihau'r risg bosibl y caiff atgyfeiriadau eu dyblygu.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Gwnaethom gasglu adborth gan y staff drwy holiaduron ar-lein a chawsom naw ymateb gan staff yn y lleoliad hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol; roedd pawb a ymatebodd yn teimlo bod y lefelau staffio yn ddigonol, bod cleifion yn cael digon o wybodaeth ac yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu gofal, a bod ansawdd y gofal a'r cymorth i gleifion yn foddhaol. Fodd bynnag, dim ond chwech allan o'r naw aelod o staff a nododd fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau yn y gweithle, a bod cyfathrebu â'r uwch-reolwyr yn llai effeithiol. Dywedodd y staff:

*“Mae pob aelod o'r staff yn barod i helpu ac yn garedig. Cefnogaeth dda gan yr uwch-reolwyr. Hoffwn petai'n haws cael gwyliau blynyddol.”*

*“Mae gennym fwy nag un rheolwr uniongyrchol felly mae'n anodd rhoi atebion i'r adran honno gan ei bod hi'n bosibl y byddai'r atebion yn wahanol gan ddibynnu ar y rheolwyr unigol. Mae un yn ymwneud llawer llai â'r cleifion.”*

*“Nifer o broblemau â'r adeilad/ystadau (pibellau yn gollwng ac ati) na fu'n hawdd ymdrin â nhw na'u datrys. Mae'n anodd cael gwybod pwy sy'n atebol.”*

*“Nid ydym yn cael unrhyw gyfarfodydd staff. Cynhaliwyd yr un diwethaf yn 2020! Mae gwir angen lleoliad grŵp arnom i godi pryderon, trafod y gwasanaeth a datblygiadau yn y dyfodol.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Y Prif Weithredwr oedd y cyflogwr dynodedig mewn perthynas ag IR(ME)R 2017. Er mai'r cyflogwr oedd yn bennaf cyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, lle y bo'n briodol, roedd wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y bwrdd iechyd roi IR(ME)R ar waith.

Dangosodd y tîm rheoli o bob adran a arolygwyd ymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau arolygiad AGIC ac i wella lle bo angen. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn dangos bod adborth o arolygiadau blaenorol o arolygiadau IR(ME)R eraill yn y bwrdd iechyd wedi cael ei ystyried a'i roi ar waith yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau.

Cymerodd y rheolwyr adrannol a'r arweinwyr llawfeddygol ran bwysig yn y broses arolygu. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff fod y rheolwyr ar y safle yn hawdd mynd atynt. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r rheolwyr sy'n gyfrifol am Ysbyty Athrofaol Llandochau yn gweithio ar y safle, a byddai'r staff yn gwerthfawrogi ac yn cael budd o fwy o gysylltiad ar safle'r ysbyty.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan y staff ar gyfathrebu a chymorth gan y rheolwyr ac ymdrin â'r materion hyn.**

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Ysbyty Athrofaol Cymru, gan nodi ei bod hi'n anodd ymgysylltu'n effeithiol wrth fynychu'r cyfarfodydd hyn o bell. Dywedodd pob aelod o'r staff y byddai'n well ganddynt gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn gallu cyfathrebu'n well a meithrin cydberthnasau yn lleol. Yn ogystal, nododd rhai o'r staff y byddai cyfleoedd hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fuddiol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan y staff ac ystyried sut y caiff gwelliannau eu gwneud er mwyn cynnig cyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng uwch-reolwyr a staff sy'n gweithio yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.**

## **Y Gweithlu**

### **Gweithlu medrus a galluog**

Gwnaethom siarad ag aelodau o staff ac arweinwyr yn yr adran a gwelsom ddogfennaeth allweddol a oedd yn ymwneud â hyfforddiant ac arfarniadau.

Roedd pob aelod o'r staff radioleg y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff yn eu hadran yn briodol. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu fod radiolegwyr yn Ysbyty Athrofaol Llandochau o bosibl yn cael llai o gymorth na'r radiolegwyr yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yn enwedig yng Nghanolfan y Fron. Nid oedd yn glir a oedd y strwythur a'r cymorth lefel uwch yng Nghanolfan y Fron yn ddigonol, o ystyried nifer uchel y cleifion, yn enwedig o gymharu â lefelau staffio Ysbyty Athrofaol Cymru.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio radioleg yn Ysbyty Athrofaol Llandochau a sicrhau niferoedd staff teg a bod cymorth digonol ar gael i'r staff.**

Roedd system briodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff o ran hyfforddiant. Roedd cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dangos lefel cydymffurfiaeth o ryw 90%. Er ei bod hi'n anodd cael gafael ar hyfforddiant diogelu lefel tri wyneb yn wyneb,

roedd pob staff a adolygwyd wedi cwblhau lefel dau, ac roedd cynlluniau ar y gweill i gynnal yr hyfforddiant lefel tri.

Mae'n gadarnhaol nodi bod y cofnodion staff hefyd yn dangos bod 84% o'r staff wedi cael Adolygiad Datblygu Perfformiad blynyddol.

Roedd cofnodion hyfforddiant a oedd yn benodol i IR(ME)R a chofnodion hawliau ar gyfer radiograffwyr ac uwch-ymarferwyr yn glir, yn cael eu cynnal yn dda ac yn gyson ar gyfer pob modd. Roedd yn galonogol nodi bod cyfleoedd i uwch-ymarferwyr gynnal archwiliadau HSG a'r gwaith arfaethedig i gynnal gwerthusiadau clinigol o sganiau CT o'r pen.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio breichiau-C bach. Roedd y tystysgrifau a oedd ar gael i'w harchwilio wedi'u cyhoeddi 10 mlynedd yn ôl pan gafodd y cyfarpar ei brynu. Roedd dogfennau hawliau wedi cael eu rhoi'n ddiweddar i ddeiliaid dyletswydd sy'n defnyddio'r cyfarpar hwn ond nid oedd unrhyw brotocolau archwilio na lefelau cyfeirio diagnostig ysgrifenedig ar gael i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar.

**Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y ddogfennaeth ar gyfer hyfforddiant a hawliau IR(ME)R yn gyfredol a'i bod ar gael i bob gweithredwr IR(ME)R gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r adran radioleg.**

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod newid diweddar o ran patrymau shifftiau a chyfnodau gorffwys wedi cael croeso cynnes a'i fod yn golygu bod shifftiau yn ategu cydbwysedd bywyd gwaith.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff brosesau priodol ar gyfer cofnodi, monitro a datrys cwynion anffurfiol a ffurfiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cofnodi pryderon (cwynion) ar lafar ac anffurfiol. Dywedodd y staff fod gwybodaeth o gwynion yn cael ei rhannu drwy e-bost yn bennaf a bod y gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu â'r gwahanol adrannau ac ar draws y sefydliad. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn ceisio ymdrin ag unrhyw gwynion llafar ar y diwrnod ac y byddent yn rhoi gwybod i'r rheolwr.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd, ond ni allai pob un ohonynt gadarnhau a oeddent wedi cael hyfforddiant ar y ddyletswydd. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant fod

hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gynnig. O ran y cwestiynau a ofynnwyd am y Ddyletswydd Gonestrwydd yn yr holiadur, roedd ychydig dros hanner yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r ddyletswydd ac yn ei deall, a'u bod yn deall eu rôl o ran cyrraedd safonau'r ddyletswydd.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                    | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|----------------------------------------|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |
|                                                                   |                                                        |                                        |                                |

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Adran Radioleg Ysbyty Athrofaol Llandochau

**Dyddiad yr arolygiad:** 15 a 16 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater                                                                                     | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| 1. Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch / achosion o ddiffyg cydymffurfio. |                            |                 |                                   |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Athrofaol Llandochau, Radioleg

**Dyddiad yr arolygiad:** 15 ac 16 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater |                                                                                                                                                                                                    | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                         | Safon/ Rheoliad                                 | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                         | Swyddog cyfrifol                                                                         | Amserlen |
|-----------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| 1.                    | Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi defnyddio'r gwasanaethau cyfieithu. Roedd staff yr adran radioleg yn siarad llawer o ieithoedd, ond nid oedd y wybodaeth hon ar gael i gydweithwyr. | Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfieithu a sut i gael gafael arnynt ymhlith y staff. Gellid hefyd ddatblygu rhestr o ieithoedd y staff sy'n barod i rannu'r wybodaeth honno er mwyn helpu yn hyn o beth. | GIG Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg | Caiff rhestr o'r ieithoedd a siaredir gan staff Radioleg Ysbyty Athrofaol Llandochau ei chreu             | Y Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol ac uwch-arolygydd safle Ysbyty Athrofaol Llandochau | 2 fis    |
|                       |                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                    |                                                 | Caiff hyfforddiant a gwybodaeth am adnoddau hyfforddi ar-lein eu hailddosbarthu i staff yr adran Radioleg | Prif Radiograffydd QSE                                                                   | 2 fis    |

|    |                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                       |                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                 |                                                                         |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|
| 2. | Dywedodd tri chlaf yn yr holiadur i gleifion eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn. | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fonitro a sicrhau bod pob claf yn cael mynediad cyfartal a theg i'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, heb ofni y bydd yn destun gwahaniaethu. | GIG Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg | <p>Mae staff yr adran Radioleg yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chaiff lefelau cydymffurfiaeth eu monitro gan y rheolwyr a'u hadolygu bob blwyddyn yn ystod arfarniadau yn seiliedig ar werthoedd.</p> <p>Mae'r adran Radioleg yn cael adborth gan gleifion ac yn sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu cadarn eu llunio ac y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith lle nodir bod eu hangen yn dilyn adborth.</p> <p>Caiff Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a</p> | <p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol</p> <p>Prif Radiograffydd QSE / Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol</p> <p>Prif Radiograffydd QSE / Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol</p> | <p>Eisoedd ar waith</p> <p>Eisoedd ar waith</p> <p>Eisoedd ar waith</p> |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                  |                                                                 |
|--|--|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>Chydraddoldeb eu cynnal wrth ddatblygu gwasanaethau / polisiau / gweithdrefnau newydd a chaiff camau gweithredu eu neilltuo lle bo angen.</p> <p>Datblygu a dosbarthu'r pecyn cymorth Tegwch, Cydraddoldeb, Profiad a Diogelwch Cleifion - mae hyn yn gydnaws â 'The 3I Framework: Equity, Equality, Experience and Patient Safety framework'.</p> <p>Ymdrechion recriwtio cynhwysol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.</p> | <p>Yr arweinydd gweithredol dros degwch a chynhwysiant</p> <p>Yr arweinydd gweithredol dros degwch a chynhwysiant</p> <p>Yr arweinydd gweithredol dros degwch a chynhwysiant</p> | <p>Ar waith</p> <p>Ar waith</p> <p>Ar waith</p> <p>Ar waith</p> |
|--|--|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|

|    |                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                      |                                  |                                                                                                                                                                          |                                                                    |       |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------|
|    |                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                      |                                  | <p>Creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a hygyrch.</p> <p>Adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb a gwaith i fonitro data cyflogaeth</p>                                      | Yr arweinydd gweithredol dros degwch a chynhwysiant                |       |
| 3. | Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer defnyddio'r breichiau-C bach mewn theatrau yn adlewyrchu ymarfer yn gywir. | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio breichiau-C bach mewn theatrau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ymarfer yn gywir.                                    | IR(ME)R Rheoliad 6 Atodlen 2 (1) | Caiff Gweithdrefnau'r Cyflogwr ar gyfer breichiau-C bach eu hadolygu a'u diweddarau pan fydd yr ymarfer presennol yn wahanol i'r hyn a nodir yn y weithdrefn.            | Cyfarwyddwr Clinigol Hwb Llawfeddygol Ysbyty Athrofaol Llandochoau | 3 mis |
| 4. | Roedd gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn D) ar gyfer cadarnhau gweithdrefnau'r cyflogwr yn aneglur.                  | Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau Gweithdrefn D er mwyn dogfennu'n glir broses gadarnhau ffurfiol ar gyfer holl weithdrefnau'r cyflogwr, gan sicrhau y caiff y broses hon ei chynnwys yn y ddogfennaeth | IR(ME)R Rheoliad 6 Atodlen 2 (1) | Caiff Gweithdrefn D y Cyflogwr ei diweddarau i gynnwys y broses gadarnhau ffurfiol ar gyfer pob un o weithdrefnau'r cyflogwr. Caiff gohebiaeth ei hanfon at randdeiliaid | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol                                 | 3 mis |

|    |                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                  |                                                                                                                 |                                    |       |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-------|
|    |                                                                                                                                                                                                   | berthnasol a'i chyfleu i bob rhanddeiliad. Bydd hyn yn darparu tryloywder, cysondeb a sicrwydd bod pob gweithdrefn wedi cael ei hadolygu a'i hawdurdodi'n briodol cyn iddi gael ei rhoi ar waith.                                                   |                                  | perthnasol ar ôl cwblhau'r broses.                                                                              |                                    |       |
| 5. | Nid oedd y broses cadarnhau, monitro ac uwchgyfeirio hon ar gyfer achosion o fynd y tu hwnt i lefelau cyfeirio diagnostig wedi'i disgrifio mewn ffordd gynhwysfawr yng ngweithdrefnau'r cyflogwr. | Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod Gweithdrefn F, y broses gadarnhau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig, yn cael ei dogfennu ynghyd â'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd i ymdrin ag achosion cyson o fynd y tu hwnt i lefelau cyfeirio diagnostig. | IR(ME)R Rheoliad 6 Atodlen 5 (c) | Caiff Gweithdrefn F y Cyflogwr ei diweddarau i gynnwys y broses gadarnhau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig. | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |
| 6. | Roedd angen adolygu ac atgyfnerthu Gweithdrefn B y cyflogwr (Hawliau) er mwyn sicrhau                                                                                                             | Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau ac atgyfnerthu Gweithdrefn B er mwyn sicrhau bod y broses hawliau ar gyfer                                                                                                                                           | IR(ME)R Rheoliad 5 Atodlen 2     | Caiff Gweithdrefn B y Cyflogwr ei diweddarau i sicrhau bod y broses hawliau ar gyfer deiliaid                   | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |

|    |                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                |                    |                                                                                                                                                                       |                                    |       |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-------|
|    | cydymffurfiaeth barhaus. Yn arbennig, y broses ar gyfer diweddarau hawliau staff Everlight gan y cyflogwr.                                                       | deiliaid dyletswydd Everlight yn unol â phrosesau'r bwrdd iechyd                                                                                                                                                                                               |                    | dyletswydd Everlight wedi'i hadlewyrchu'n gywir.                                                                                                                      |                                    |       |
| 7. | Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer adnabod cleifion yn cynnwys rhywfaint o wahaniaethau o ran yr hyn a oedd yn cael ei ystyried yn anghysondeb bach neu fawr. | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ar gyfer adnabod yr unigolyn a fydd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio yn gywir er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y broses i'w dilyn os bydd anghysondeb ym manylion adnabod y claf. | IR(ME)R Rheoliad 6 | Caiff Gweithdrefn A y Cyflogwr ei hadolygu a'i diweddarau i roi mwy o eglurder ynghylch y broses i'w dilyn ar gyfer anghysondebau bach a mawr ac i'w diffinio'n glir. | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |
| 8. | Nid oedd rhai cleifion a oedd yn cael apwyntiadau dros y ffôn neu drwy neges destun yn cael gwybodaeth gyson am fanteision a                                     | Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob claf, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael gwybod am apwyntiadau ar ffurf neges destun neu dros y ffôn, yn cael gwybodaeth berthnasol am fanteision a risgiau fel                                                             | IR(ME)R Rheoliad 6 | Adolygu'r wybodaeth am fanteision a risgiau a roddir i gleifion yn uned y fron a'i diweddarau lle y bo'n briodol, gan sicrhau bod pob claf ni waeth sut y cafodd      | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |

|     |                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                |                                                                                                                                                                                            |                                    |       |
|-----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|-------|
|     | risgiau cyn eu cysylltiad.                                                                                                | sy'n ofynnol gan IR(ME)R 2017.                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                | ei apwyntiad yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ysgrifenedig hon.                                                                                                                         |                                    |       |
| 9.  | Nid oedd Gweithdrefn J yn cynnwys y weithdrefn ar gyfer defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial.                    | Mae angen i'r cyflogwr ddiweddarau Gweithdrefn J i gynnwys gweithdrefnau ar gyfer defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth IR(ME)R. Mae'n hanfodol bod y safle yn cyfathrebu'n glir wrth ystyried rôl gynorthwyol y feddalwedd deallusrwydd artiffisial. | IR(ME)R Rheoliad 6 Rheoliad 12 | Caiff Gweithdrefn J y Cyflogwr ei hadolygu a'i diweddarau i gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau ei bod ar gael i bob rhanddeiliad. | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |
| 10. | Nid oedd adroddiadau wedi'u hawtomeiddio / adroddiadau safonol wedi'u geirio mewn ffordd gyson nac yn cael eu cofnodi fel | Dylid adolygu adroddiadau safonedig ('safonol') er mwyn sicrhau cysondeb, a rhaid cofnodi gwerthusiadau clinigol yn nodiadau'r cleifion lle y bo'n berthnasol.                                                                                                                                            | IR(ME)R Rheoliad 12            | Adolygu adroddiadau safonol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson a dogfennu'r gofyniad i gofnodi gwerthusiadau clinigol yn nodiadau'r cleifion.                                                 | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |

|     |                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                            |                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                             |                                             |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
|     | mater o drefn lle bo'n berthnasol.                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                            |                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                             |                                             |
| 11. | Er bod dadansoddiadau o dueddiadau mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ar gael, nid oedd unrhyw aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cofio darllen y wybodaeth hon. | Rhaid i'r cyflogwr wella ymwybyddiaeth o ganfyddiadau dadansoddi tueddiadau ymysg y staff ac atgyfeirwyr, drwy ddosbarthu'r poster a'r wybodaeth ar y posteri yn ehangach. | IR(ME)R Rheoliad 7 | <p>Dosbarthwyd gwybodaeth a phosteri dadansoddi tueddiadau i bob aelod o staff yr adran Radioleg drwy negeseuon e-bost, cyfarfod misol Diogelwch ac Ansawdd yr adran Radioleg a chânt eu harddangos ym mhob rhan o'r adrannau Radioleg.</p> <p>Dosbarthwyd poster dadansoddi tueddiadau i bob aelod o staff Caerdydd a'r Fro drwy'r rhwydwaith cyfathrebu diogelwch cleifion a chafodd ei arddangos ar</p> | <p>Prif Radiograffydd QSE</p> <p>Prif Radiograffydd QSE</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |

|     |                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                           |                                     |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                |       |
|-----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|-------|
|     |                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                           |                                     | SharePoint yr adran Radioleg.                                                                                                                                                                                                    |                                                                |       |
| 12. | Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yr hyn roeddent yn ei ystyried wrth gyfiawnhau cysylltiadau, roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch o ran ble i ddogfennu'r broses awdurdodi ar y system gwybodaeth radioleg (RIS). | Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Cyfiawnhau ac Awdurdodi yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r camau y mae angen eu cymryd wrth gyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol yn gywir. | IR(ME)R Rheoliad 11 Atodlen (1) (b) | Adolygu'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Cyfiawnhau ac Awdurdodi er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gwahanol senarios ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi, gan gynnwys sut a ble mae angen i'r staff ddogfennu'r broses. | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol                             | 3 mis |
| 13. | Mae Gweithdrefn N yn nodi ' <i>For X-ray and nuclear medicine procedures, a dose constraint of 1 mSv will be applied.</i> ' Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r cychwyn cyntaf wrth ddarllen y weithdrefn a oedd y cyfyngiad            | Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau Gweithdrefn N er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfyngiadau dosau i ofalwyr a chysurwyr, unwaith y caiff y cyfyngiad dosau hwn ei gadarnhau.                                         | IR(ME)R Rheoliad 6                  | Adolygu a diweddarau Gweithdrefn N y Cyflogwr i egluro sut y caiff y cyfyngiad dosau ar gyfer gofalwyr a chysurwyr ei bennu a sut y caiff ei gymhwyso gan ystyried a oes angen adolygu / diwygio'r cyfyngiad dosau hwn.          | Arbenigwr Ffiseg Feddygol / Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | 3 mis |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                    |                                             |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
|     | hwn yn cyfeirio at gyfyngiad blynyddol neu gyfyngiad fesul cysylltiad.                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                    |                                             |
| 14. | Wrth edrych ar y ddogfennaeth ar gyfer y breichiau-c bach a oedd yn cael eu defnyddio yn y theatrau, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod rhaglen sicrhau ansawdd, profion rheoli ansawdd nac archwiliadau dosau yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn gan yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol na gan y gweithredwyr sy'n gyfrifol am y cyfarpar. | <p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff Arbenigwyr Ffiseg Feddygol eu cynnwys yn y broses rheoli ansawdd a'r broses o gefnogi cyfarpar a staff mewn theatrau o dan IR(ME)R.</p> <p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob agwedd ar y defnydd o freichiau-C bach mewn theatrau yn cydymffurfio'n llawn ag IR(ME)R a bod yr aelodau hynny o staff sy'n defnyddio, yn profi, ac yn sicrhau ansawdd yr holl gyfarpar IR(ME)R wedi'u hyfforddi, yn gymwys ac yn meddu ar yr hawl i wneud hynny.</p> | IR(ME)R Rheoliad 6 (3) (b)<br>Rheoliad 17 (4)<br>Atodlen 3 | <p>Rhoi rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer y breichiau bach a ddefnyddir yn y theatr.</p> <p>Rhoddwyd rhaglen o brofion rheoli ansawdd / archwiliadau dosau ar waith ar gyfer y breichiau bach a ddefnyddir yn y theatr.</p> | <p>Cyfarwyddwr Clinigol Hwb Llawfeddygol Ysbyty Athrofaol Llandochoau/ Arbenigwyr Ffiseg Feddygol ategol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol Hwb Llawfeddygol Ysbyty Athrofaol Llandochoau/ y gweithredwyr sy'n gyfrifol am y cyfarpar</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                           |                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                    |                |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|----------------|
| 15. | Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer trosglwyddo i beiriannydd allu cael mynediad o bell nac ar gyfer hysbysu'r staff am newidiadau o ran profion neu ofynion cyn dechrau defnyddio'r cyfarpar eto at ddibenion clinigol. | Dylai'r cyflogwr ddatblygu a dosbarthu gweithdrefn ysgrifenedig er mwyn trosglwyddo cyfarpar yn ddiogel ar ôl unrhyw waith gan beiriannydd o bell.                        | IR(ME)R Rheoliad 6           | Datblygu gweithdrefn â'r ddogfennaeth drosglwyddo gysylltiedig ar gyfer mynediad o bell gan beiriannydd. Dylai'r weithdrefn gynnwys sut y caiff staff eu hysbysu am newidiadau a'r camau gweithredu sydd eu hangen cyn dechrau defnyddio'r cyfarpar eto at ddibenion clinigol. | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol                 | 3 mis          |
| 16. | Fodd bynnag, roedd y broses atgyfeirio yn cyfeirio at sawl ffordd o atgyfeirio cleifion i mewn i'r gwasanaethau, gan gynnwys systemau papur ac electronig a allai gynyddu'r risg y caiff atgyfeiriadau eu dyblygu.                                   | Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r prosesau atgyfeirio er mwyn sicrhau y cânt eu symleiddio i wella effeithlonrwydd ac i leihau'r risg bosibl y caiff atgyfeiriadau eu dyblygu. | IR(ME)R Rheoliad 6 Atodlen 2 | Cafodd yr amrywiaeth o brosesau atgyfeirio sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghaerdydd a'r Fro ei hadolygu a'i symleiddio eisoes lle y bo'n bosibl. Uwchgyfeiriwyd y risgiau sy'n                                                                                               | Arweinydd QSE / Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol | Wedi'i gwblhau |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                    |                      |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|----------------------|
|  |  |  |  | <p>gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ac fe'u nodwyd ar y gofrestr risgiau.</p> <p>Caiff system ceisiadau electronig ei rhoi ar waith fel rhan o'r broses o ddisodli'r System Gwybodaeth Radioleg a system PACS neu cyn hynny os yn bosibl. Bydd y llwyfan ceisiadau electronig newydd yn disodli pob math presennol o geisiadau delweddu oni bai nad yw'n ddiogel gwneud hynny o safbwynt clinigol. Y dyddiad gweithredu amcangyfrifedig ar gyfer systemau RIS a PACS newydd yw mis Chwefror 2026.</p> | <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p> | <p>Chwefror 2026</p> |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|----------------------|

|     |                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                         |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                       |                             |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|
| 17. | Dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y byddai'n fuddiol pe byddai rheolwyr o Ysbyty Athrofaol Caerdydd yn treulio mwy o amser yn gweithio o Llandochau ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r staff sydd wedi'u lleoli yno. | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau a wnaed gan y staff am gyfathrebu a chymorth gan y rheolwyr ac ymdrin â'r meysydd a godwyd a rhoi cynllun priodol i AGIC yn cyfeirio at y mesurau sydd ar waith ac a gaiff eu rhoi ar waith. | GIG Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithlon | Adolygwyd cynlluniau swydd ar gyfer rheolwyr traws-safle yr oedd ganddynt ymrwymadau clinigol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru o ddydd Llun i ddydd Gwener yn flaenorol. Mae hyn wedi rhoi amser gwarchodedig iddynt allu gweithio yn Ysbyty Athrofaol Llandochau bob wythnos. | Penaethiaid Radiograffeg Proffesiynol ac Uwch-arolygwyr Safle (Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru) | Wedi'i gwblhau              |
| 18. | Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oeddent yn cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Llandochau ac y byddai cyfarfodydd o'r fath o fudd iddynt.                                                                 | Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan y staff a chadarnhau cynlluniau gydag AGIC i wella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â staff yn Ysbyty Athrofaol Llandochau wyneb yn wyneb.                                               | GIG Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithlon | Trefnwyd sgrymiau staff dyddiol yn y gwahanol ardaloedd clinigol.<br><br>Yn ogystal â'r negeseuon e-bost i grwpiau a'r cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr                                                                                                                 | Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol<br><br>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol                                          | Wedi'i gwblhau<br><br>3 mis |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                     |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                          |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|     |                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                     |                                                        | cysylltiadau diwydiannol sydd eisoes ar waith, ailddechreuwyd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb bob mis.                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                          |
| 19. | Nid oedd yn glir a oedd y strwythur a'r cymorth lefel uwch i staff radioleg a oedd wedi'u lleoli yng Nghanolfan y Fron yn ddigonol, yn enwedig o ystyried nifer uchel y cleifion a oedd yn cael eu gweld ac o gymharu â lefelau staffio Ysbyty Athrofaol Cymru. | Dylai'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio ar draws yr adrannau radioleg yn Ysbyty Athrofaol Llandochau a sicrhau niferoedd staff teg a bod cymorth lefel uwch ar gael i'r staff. | GIG Cymru, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithlon | <p>Mae strwythur proffesiynol yr adran radioleg wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nodwyd bod angen swydd mamograffydd arweiniol.</p> <p>Nodwyd y dylid symud y broses o reoli'r Radiolegwyr Ymgynghorol sy'n gweithio yng Nghanolfan y Fron a'i gosod o dan strwythur rheoli'r adran Radioleg. Mae'r</p> | <p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol / Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Bwrdd Clinigol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg / Cyfarwyddwr Clinigol y Bwrdd Clinigol ar gyfer Llawfeddygaeth</p> | <p>Wedi'i gwblhau'n rhannol - bydd ei gwblhau yn dibynnu ar amserlen y camau ailstrwythuro.</p> <p>Yn mynd rhagddo, amcangyfrifir y bydd wedi'i gwblhau o fewn 3 mis</p> |

|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                   |                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                              |
|-----|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|
|     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                   |                               | cam gweithredu hwn yn mynd rhagddo.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                              |
| 20. | Nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio breichiau-C bach. Roedd y tystysgrifau a oedd ar gael i'w harchwilio wedi'u cyhoeddi 10 mlynedd yn ôl pan gafodd y cyfarpar ei brynu. Roedd dogfennau hawliau wedi cael eu rhoi'n ddiweddar i ddeiliaid dyletswydd sy'n defnyddio'r cyfarpar hwn ond nid oedd unrhyw brotocolau archwilio na lefelau cyfeirio diagnostig ysgrifenedig ar gael i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar. | Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y ddogfennaeth ar gyfer hyfforddiant a hawliau IR(ME)R yn gyfredol a'i bod ar gael i bob gweithredwr IR(ME)R gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r adran radioleg. | IR(ME)R Rheoliad 17 Atodlen 3 | Ceir cadarnhad o gymhwysedd hyfforddiant a sicrwydd a thystiolaeth ohono bob blwyddyn drwy'r cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Dwylo a gaiff ei gynnal bob chwarter. Lle caiff anghenion hyfforddiant ychwanegol eu nodi, caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu gan arbenigwr a darperir dystiolaeth ohono.<br><br>Caiff protocolau archwilio ysgrifenedig eu datblygu a byddant ar gael i bawb sy'n defnyddio'r braich-C fach. | Cyfarwyddwr Clinigol Hwb Llawfeddygol Ysbyty Athrofaol Llandochoau<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Hwb Llawfeddygol Ysbyty Athrofaol Llandochoau<br><br><br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr Clinigol Hwb | 3 mis<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>3 mis<br><br><br><br><br><br><br>Wedi'i gwblhau |

|  |  |  |  |                                                                                                                      |                                                                                  |  |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|--|
|  |  |  |  | Datblygwyd lefelau cyfeirio diagnostig lleol, cawsant eu rhannu â defnyddwyr a'u harddangos gyda'r breichiau-C bach. | Llawfeddygol<br>Ysbyty Athrofaol<br>Llandochau /<br>Arbenigwr Ffiseg<br>Feddygol |  |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|--|

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Alicia Christopher

**Swydd:** Rheolwr Cyffredinol Radioleg, a Gwyddor Ffisegol, Darlunio, Peirianeg ac Ymchwil

**Dyddiad: 4/09/2025**